| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **9 Gorffennaf 2018** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

**<u>Cwyn 7294/201800440</u>**

Cwyn gan aelod o gyngor tref wedi methu datgelu buddiant mewn cyfarfod o'r cyngor ac y dylai fod wedi gadael y cyfarfod.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Roedd yr aelod wedi datgan bod ganddi fuddiant ond nad oedd o'r farn ei fod yn rhagfarnu.  Oherwydd natur drafodaeth a gafwyd, nid oedd yr Ombwdsmon wedi ei berswadio bod y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu a fyddai'n golygu y dylai bod wedi gadael.

**<u>Cwyn 16645/201800975</u>**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd tref wedi methu datgelu buddiant mewn mater yn ymwneud â pherson oedd yn gwsmer iddo.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Fel unigolyn sydd yn rhedeg busnes lleol mae'n amlwg y byddai'n nabod sawl unigolyn arall sydd yn byw yn yr ardal. Nid oedd y pwnc dan sylw yn un lle byddai person annibynnol yn meddwl y byddai'n elwa ohoni'n bersonol nac yn medru dylanwadu penderfyniad a fyddai'n creu sefyllfa negyddol i'r achwynydd.

**<u>Cwyn 201800612</u>**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am y modd i siaradodd cynghorydd tref â hi ar dri achlysur mewn perthynas a mater penodol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd yn bosib cysoni disgrifiad yr achwynydd o'r hyn a ddigwyddodd gyda disgrifiad yr aelod heb dystiolaeth bellach. Roed y ddau fersiwn o'r hyn a ddigwyddodd yr un mor gredadwy ac nid oedd wedi ei berswadio y gallai ffafrio un fersiwn dros y llall

**Cwyn 201706123**

Cwyn gaen aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi gwrthod ymwneud ag ef mewn perthynas â materion yn ymwneud â'i eiddo ac anghydfod rhyngddo â'r Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Mater i gynghorydd yw penderfynu os yw am gyfarfod neu ohebu gydag aelodau o'r cyhoedd. Prif ddyletswydd aelodau yw cynrychioli trigolion o fewn eu hetholaethau, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ymdrin â phob mater unigol a adroddir iddynt.

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion hyd yn hyn eleni:

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 0 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 0 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 2 |
| Swyddog | 0 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 1 |
| Datgan Buddiant | 2 |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 3 |
| Ymchwiliad | 0 |
| Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| Cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |

**4. Achosion Agored**

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **0**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **1**

**5. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth